Tymor y Gwanwyn 2025 / Spring Term 2025 - Cam Cynnydd/Progression 1/2 Thema/Theme - Space / Y Gofod

Beth ydych chi'n ei wybod/meddwl? What do you think/know?

Beth ydych chi'n gweld?What do you see?

Sut ydych chi'n teimlo?How do you feel?

Beth yw eich dymuniad? What is your wish?

Ein Cwestiwn Mawr / Our Big Question:Pa effaith mae llygredd yn ei gael ar ein byd?

Iechyd a Lles / Health and Well-Being

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig / What Matter Statements

Bydd gan y plant ymwybyddiaeth o'u canfyddiadau a'u meddyliau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl plant. Bydd y plant yn cymryd rhan yn Niwrnod Trwyn Coch ac yn dysgu i ddangos gofal a pharch at eraill. Bydd y plant yn dysgu Stori'r Dyn Sinsir trwy Pie Corbett, cwblhau gweithgareddau/tasgau yn ymwneud â'r stori a hefyd yn dilyn rysáit ac yn pobi dyn sinsir eu hunain i fynd adref gyda nhw. Yn ystod wythnos E-Ddiogelwch, bydd y plant yn cwblhau tasgau e-ddiogelwch yn dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac ymddygiad ar-lein. Yn ystod y tymor hwn, bydd y plant yn dathlu Diwrnod y Llyfr ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp

Y Celfyddydau Mynegiannol / Expressive Arts

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig / What Matter Statements

Byddwn yn dysgu am hanes Santes Dwynwen a bydd y plant yn cael cyfle i greu darn o gelf yn ymwneud â'r dathliad, trwy gydweithio gyda artist lleol. Bydd y plant yn arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau creadigol ac yn gofyn cwestiynau i ddarganfod sut a pham mae gwaith creadigol yn cael ei wneud. Wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad hwn, bydd y plant yn defnyddio eu sgiliau DCF i anfon e-bost gyda gwahoddiad i artist lleol ddod i'n hysgol. Bydd y plant hefyd yn dylunio poster gwybodaeth ar gyfer ein disgo ysgol i hyrwyddo'r digwyddiad. Byddwn yn dysgu am siapiau trwy ddysgu eu henwau, delwedd a phriodweddau, gan gynnwys siâp y galon a fydd yn symbol o gariad trwy gydol hanes Santes Dwynwen. Bydd y plant yn dysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, trwy goreograffi dawns draddodiadol a chynhyrchu, perfformio a rhannu eu gwaith creadigol i eraill.

Y Dyniaethau / Humanities

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig / What Matter Statements

Bydd y plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy ddysgu am hanes y dydd. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar sail yr hyn yr ydym yn ei hoffi / casáu / gwybod trwy wneud cawl traddodiadol. Byddwn yn dathlu'r Pasg ac yn deall bod digwyddiadau wedi digwydd yn y gorffennol a byddwn yn dilyniannu hanes y digwyddiad. Byddwn yn cwblhau ymchwiliad ymholiad ac yn cyfathrebu/cyflwyno ein canfyddiadau ac yn dod i gasgliadau syml. Byddwn yn gwneud hyn drwy fynd ar daith i draeth lleol, lle byddwn yn edrych ar effaith llygredd. Bydd y plant yn dysgu am yr effaith a gânt ar y byd naturiol a beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir ac y dylai eu gweithredoedd fyfyrio ar eu penderfyniadau. Byddwn yn categoreiddio a gwahaniaethu rhwng gwahanol ddeunyddiau ar y traeth e.e. pren, plastig ac ati. Bydd y plant yn didoli a chategoreiddio'r sbwriel ac yn defnyddio eu sgiliau DCF i wneud siart/diagram electronig i ddeall cyfaint y sbwriel a gesglir. Byddwn yn defnyddio'r sbwriel a gasglwyd i greu darn o waith celf trwy gydweithio gyda'n ffrindiau yn y dosbarth. Byddwn yn cwblhau testun perswadio gwybodaeth, gan berswadio eraill i 'ymweld â'n traeth lleol'. Bydd y plant yn trafod ac yn dysgu am rolau'r rhai sy'n ein helpu ar lan yr arfordir. Byddwn hefyd yn ymchwilio ac yn edrych ar fynyddoedd ac afonydd trwy edrych ar eu nodweddion.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg / Science and Technology

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig / What Matter Statements

Byddwn yn adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw a'u bod yn tyfu. Byddwn yn tyfu planhigion yn yr awyr agored, a byddwn yn cyfathrebu ein canfyddiadau. Bydd y plant yn cwblhau ymchwiliad arnofio/suddo trwy ddysgu bod angen i ni arsylwi ac ymchwilio i archwilio gwyddonol. Byddwn yn casglu data a geir yn ein hamgylchedd ac yn cyflwyno ac yn gwerthuso'r data mewn siartiau syml. Byddwn yn gwneud siart o'n hoff flodyn/planhigyn, lle byddwn hefyd yn defnyddio ein sgiliau DCF i dynnu lluniau o'n hoff blanhigyn/blodyn. Byddwn yn cwblhau gwersi e-ddiogelwch, gan ddysgu pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein a sicrhau preifatrwydd personol.